# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **15 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol sy'n gymwys yng Nghymru:

Rheoliadau'r UE

- Rhan C o Gyfarwyddeb 2001/18 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 12 Mawrth 2001 ar ryddhau organebau a addaswyd yn enetig yn fwriadol i'r amgylchedd a diddymu Cyfarwyddeb 90/220/EEC y Cyngor.

- Rheoliad (EC) Rhif 1830/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymdrin ag olrhain a labelu organebau a addaswyd yn enetig ac olrhain cynhyrchion bwyd a phorthiant a gynhyrchir o organebau a addaswyd yn enetig.

- Rheoliad (EC) Rhif 1946/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symudiadau trawsffiniol organebau a addaswyd yn enetig sy'n rheoleiddio allforio GMOs o'r UE i drydydd gwledydd (y tu allan i'r UE).

- Mae Penderfyniad y Comisiwn 94/730/EC yn nodi gweithdrefnau arbennig y gellir eu dilyn ar gyfer ceisiadau i gynnal mathau penodol o dreialon o blanhigion a addaswyd yn enetig.

- Penderfyniad y Cyngor 2002/812/EC sy'n pennu fformat safonol ar gyfer crynhoi ceisiadau am ganiatâd i farchnata organebau a addaswyd yn enetig.

- Penderfyniad y Cyngor 2002/813/EC sy'n pennu fformat safonol ar gyfer crynhoi ceisiadau am ganiatâd ar gyfer treialon organebau a addaswyd yn enetig.

- Penderfyniad y Cyngor 2003/701/EC sy'n pennu fformat safonol i ddeiliaid caniatâd adrodd ar fonitro a/neu ganlyniad treialon gydag organebau a addaswyd yn enetig a gynhelir o dan ddeddfwriaeth rhyddhau bwriadol.

- Penderfyniad y Cyngor 2009/770/EC sy'n nodi fformat yr adroddiad monitro ôl-farchnata y mae'n ofynnol i ddeiliaid caniatâd i farchnata organebau a addaswyd yn enetig ei gwblhau.

Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid ac Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn ymwneud â meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru yn cael eu dargadw cyn belled ag y bo modd mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir a bod y llyfr statud yn gweithredu'n briodol ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

**Diben y gwelliannau**

Mae Rheoliadau 2020 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ac yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth bresennol y Deyrnas Unedig (gan gynnwys deddfwriaeth a wnaed yn flaenorol o dan Ddeddf 2018 fel y nodir uchod) sy'n ymwneud â rheoli a symud, rhyddhau a marchnata organebau a addaswyd yn enetig. Mae angen y gwelliannau hyn i weithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y Cytundeb Ymadael.

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn gwneud mân ddiwygiad i un darn o ddeddfwriaeth yr UE a drosglwyddwyd i gyfraith y DU, h.y. deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (fel y mae'n gymwys ym Mhrydain Fawr). Mae hyn yn diddymu darpariaeth yn ffurfiol yn y ddeddfwriaeth honno sy'n rhoi pwerau i fabwysiadu Deddfau Dirprwyedig ar Gomisiwn yr UE ac na fydd o unrhyw ddefnydd ymarferol ym Mhrydain Fawr ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/x6J24beo/SI-2020/

**Pam y rhoddwyd caniatâd**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru am resymau’n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb a chydlyniad y llyfr statud. Mae'r gwelliannau wedi'u hystyried yn llawn; ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Nod y gwelliannau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.